Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Gynradd Brynsiencyn**
**Brynsiencyn**
**Llanfairpwll**
**LL61 6HZ**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2020**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Brynsiencyn wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Cryfhau rôl strategol arweinwyr, gan gynnwys sicrhau fod y corff llywodraethol yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad a herio perfformiad yr ysgol

Ers yr arolygiad craidd, bu pennaeth profiadol o ysgol gyfagos yn gofalu am yr ysgol am ddau ddiwrnod yr wythnos tan ddiwedd tymor y Gwanwyn 2019. Gweithiodd yn ddiwyd gyda'r llywodraethwyr i osod cyfeiriad strategol i'r ysgol, a chyda swyddogion ar ran yr awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Sefydlodd weithdrefnau effeithiol er mwyn arwain gwelliannau ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael effaith gadarn ar safonau disgyblion. O ganlyniad, mae aelodau'r corff llywodraethol a bron bob un o'r staff yn ymwybodol o'u rôlau ac yn gweithredu'n llwyddiannus wrth arwain yr ysgol i wella'n barhaus. Yn dilyn penodi pennaeth parhaol ar ddechrau tymor yr haf 2019, mae sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol yn sefydlog ac mae'r pennaeth wedi parhau yn llwyddiannus gyda'r gweithdrefnau a sefydlwyd gynt.

Gyda chymorth y consortiwm rhanbarthol, rhoddodd yr arweinwyr gynllun gwella effeithiol ar waith er mwyn bodloni gofynion yr argymhellion. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael effaith gadarn ar safonau'r disgyblion, y ddarpariaeth ac elfennau pwysig o'r arweinyddiaeth. Bellach, mae'r cydlynwyr rhifedd a llythrennedd yn magu hyder wrth arwain gwelliannau o fewn eu cyfrifoldebau. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r diffygion oedd yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion yn parhau i wella. Yn awr, mae'r arweinwyr yn llai dibynnol ar gynhaliaeth allanol ac yn dod yn hyderus i arfarnu safonau a darpariaeth yn annibynnol. Maent yn dadansoddi deilliannau profion cenedlaethol ac arwain gwelliannau tu hwnt i'w dosbarthiadau eu hunain yn llwyddiannus.

Yn dilyn hyfforddiant pwrpasol, mae'r corff llywodraethol wedi datblygu i weithredu'n fwy effeithiol. Mae is-bwyllgorau'n cwrdd yn gyson ac mae'r mwyafrif o lywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol naill ai i arsylwi gwersi neu i graffu ar lyfrau gwaith y disgyblion. Mae gan y llywodraethwyr hyn wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau a materion sydd angen eu gwella. Maent yn rhoi adborth yn dilyn ymweliadau er mwyn cyfrannu at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. O ganlyniad i gefnogaeth bwrpasol gan y pennaeth, mae'r adborth hwn yn llawer mwy arfarnol ac yn adnabod y camau nesaf yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r adborth ar

graffu ar lyfrau yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus o ran yr angen i wella adborth ysgrifenedig mewn gwaith thema a mathemateg, neu o ran herio tanberfformio. Fodd bynnag, nid yw gallu lleiafrif o lywodraethwyr i gymryd rôl weithredol wrth arwain yr ysgol wedi datblygu'n ddigon cadarn.

**A2. Gwella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm a'u cyflwyniad gwaith**

Ers yr arolygiad craidd, mae staff wedi derbyn hyfforddiant gan y consortiwm rhanbarthol er mwyn eu cefnogi i gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio'n llwyddiannus er mwyn craffu ar yr arferion sy'n cael effaith gadarnhaol ar hyder a chynnydd disgyblion yn eu medrau. Maent hefyd wedi ymweld ag ysgolion cyfagos yn yr ardal a thu hwnt ar gyfer arsylwi ar arfer dda. Bellach, mae'r staff yn llawer mwy hyderus wrth gynllunio gwersi ac wrth greu gweithgareddau i ddatblygu medrau rhifedd, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn cyd-destunau cyfoethog.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus drwy gyflawni heriau cyfoethog y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i fywydau gwahanol drychfilod maent wedi sylwi arnynt yn y gwesty trychfilod. Yna, maent yn amcangyfrif hyd y gwahanol drychfilod cyn eu mesur gan gymharu'r atebion gyda'u hamcangyfrif gwreiddiol. Maent hefyd yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ysgrifennu darnau ffeithiol manwl, er enghraifft am gylch bywyd y pili pala.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymchwilio a darllen ystod briodol o lyfrau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i ysgrifennu'n effeithiol mewn amrediad diddorol o gyd-destunau, er enghraifft wrth greu portreadau llwyddiannus o Alun Wyn Jones. Maent yn arddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa wrth greu deialogau rhwng cymeriadau yn ystod y streic fawr yn chwarel y Penrhyn. Fodd bynnag, mae diffyg cywirdeb iaith lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg yn llesteirio ar eu mynegiant ar adegau. Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Gallant gymhwyso'u medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gymharu pa mor bell roedd timau rygbi'r gwahanol wledydd wedi teithio i fynychu cwpan rygbi'r byd yn Siapan. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau TGCh yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw creu graffiau yn arddangos gwybodaeth am y pwls cyn ac ar ôl cymryd rhan mewn ymarfer corff, gan gymharu cyfradd curiad eu calon gyda chyfradd curiad calon eu cymheiriaid, a dod i gasgliadau synhwyrol.

Bellach, mae strwythur ysgol gyfan ar gyfer llawysgrifen wedi ei fabwysiadu ac mae'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflwyniad disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae mwyafrif o'r disgyblion yn dangos parch a balchder yn eu gwaith ac mae eu cyflwyniad yn daclus ac yn dangos gwelliant dros amser.

**A3. Gwella medrau y disgyblion i wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol**

Mae'r staff wedi ymweld ag ysgolion sy'n arddangos arfer dda o ran creu dysgwyr annibynnol mewn dosbarthiadau oedran cymysg. O ganlyniad, mae pob aelod o staff yn deall sut y gellir datblygu annibyniaeth mewn dysgwyr a manteision darparu pob cyfle posibl er mwyn rhoi llais cryf i'r plentyn. Mae effaith y gweithgareddau hyn yn glir yn y dosbarthiadau, y cynlluniau gwaith, y dewisiadau i ddysgwyr yn y ddau ddosbarth ac yng ngweithgareddau'r cyngor ysgol. Enghraifft benodol o ddatblygu annibyniaeth dysgwyr yw gallu llawer o ddisgyblion ar draws y cyfnod sylfaen i estyn a dychwelyd eitemau pwrpasol tu allan i'r dosbarth. Maent hefyd yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol drwy ddewis eu heriau yn ddoeth. Adeiladir ymhellach ar hyn yng nghyfnod allweddol 2 gyda disgyblion yn ymddwyn yn aeddfed wrth ddewis neu newid yr heriau i'w galluogi i gyflawni'n uchel. Fodd bynnag, mae lleiafrif ym mhen uchaf yr ysgol yn parhau i fod yn rhy gaeth i sgaffaldau ysgrifennu i fod yn ddysgwyr hollol annibynnol.

Mae staff wedi aildrefnu dosbarth y cyfnod sylfaen er mwyn creu ardaloedd pwrpasol i annog annibyniaeth a magu cyfrifoldeb dysgwyr drwy ddychwelyd deunyddiau i'w blychau cywir. Mae'r athrawes wedi hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb ymhellach drwy greu nifer o swyddi o fewn y dosbarth o dan ymbarél 'Helpwr y Dydd'. Drwy hyn, mae disgyblion yn arwain sesiwn torfol ar ddechrau'r dydd, sicrhau bod y llyfrgell a'r ardal cotiau'n daclus, ac yn rhannu llythyrau ar ddiwedd y dydd. Un newid amlwg iawn yn y cyfnod sylfaen yw'r modd mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb tros eu dysgu eu hunain wrth weithio'n annibynnol ar dasg antur. Cyflwynir y gweithgareddau yn y tasgau antur ar ddechrau'r wythnos gan yr athrawes, a gwneir defnydd pwrpasol o codau QR i alluogi'r disgyblion i weithio'n annibynnol i gasglu tystiolaeth heb fewnbwn oedolyn am weddill yr wythnos.

Bellach, mae staff yn sicrhau bod llais y disgybl yn cael effaith ar y cynllunio drwy ofyn am fewnbwn disgyblion wrth gychwyn themâu newydd a chofnodi'r hyn maent eisoes yn ei wybod, a'r hyn yr hoffent ei ganfod. Mae staff yn dechrau dod yn ddigon hyblyg i addasu'r cynllunio fel y mae syniadau'r disgyblion a digwyddiadau perthnasol yn codi. Rhoddir cyfle i'r disgyblion drefnu dathliad neu weithgaredd creadigol fel uchafbwynt i bob thema. Enghraifft arbennig o hyn oedd y 'Te Parti 1918' gyda bwyd ac adloniant o'r cyfnod i gloi'r thema 'A Oes Heddwch?'. Mae disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd i adnabod lle y gallent ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol.

Mae'r disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i gael dylanwad ar fywyd yr ysgol drwy dderbyn cyfrifoldebau yn y cyngor ysgol. Maent yn datblygu eu rôl yn llwyddiannus trwy drefnu gweithgareddau codi arian, gwella amgylchfyd yr ysgol a chynllunio hafan ddiogel. Yn yr hafan,mae disgyblion sy'n poeni am rywbeth yn meddwl mewn llecyn cyfforddus a diogel. Maent hefyd yn datblygu eu gallu i weithredu'n fwy strategol drwy osod blaenoriaeth lles i'r ysgol o ran gwella amseroedd chwarae.

**A4. Sicrhau fod y cynllunio a'r addysgu yn darparu gweithgareddau addas a heriol sy'n ymateb i anghenion pob disgybl**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r staff, gyda chymorth y consortiwm, wedi creu trosolwg o themâu ysgogol i'w cyflwyno dros bedair blynedd. Maent yn sicrhau cydbwysedd o bynciau a meysydd o fewn y themâu dros amser, sy'n golygu bod cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn amlwg.

Mae'r athrawon yn defnyddio cynlluniau cynhwysfawr a phwrpasol ar gyfer paratoi gwersi a gweithgareddau cyffrous a heriol ar gyfer yr ystod o oedrannau yn y ddau ddosbarth. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sydd wedi eu teilwra'n effeithiol ar gyfer yr ystod wahanol o alluoedd sydd yn y dosbarth. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i werthuso eu cynnydd, ac i wneud penderfyniadau aeddfed ynglŷn â pha weithgaredd sydd fwyaf addas ar eu cyfer nhw. Yn ogystal, maent yn cael eu hannog i fynychu grwpiau cefnogi os teimlant y bydd hynny'n eu helpu i ddeall eu gwaith yn well.

Mae'r cynorthwywyr yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion ag anghenion ychwanegol er mwyn eu cynnal a'u hysgogi i ymgymryd â'u tasgau yn llwyddiannus o fewn y dosbarthiadau a thu allan iddynt. Mae'r staff yn holi'n effeithiol ac maent yn annog y disgyblion i feddwl ac i drafod gyda phartneriaid yn rheolaidd er mwyn herio pob disgybl i feddwl. Mae'r staff yn trefnu ymweliadau addysgol i gefnogi'r dysgu ac i ysgogi pob disgybl i ymrwymo i'r themâu ymhellach drwy godi ymwybyddiaeth pob disgybl o hanes lleol a chenedlaethol. Enghraifft o hyn yw'r teithiau i'r Ysgwrn, Melin Llinon, siambrau claddu Celtaidd ac Oriel Ynys Môn, ymysg eraill.

**A5. Sicrhau fod gan y disgyblion well dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella**

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu polisi cytûn ar gyfer asesu sy'n cynnwys ymateb i waith disgyblion ac adrodd i rieni. Yn ogystal, mae'r staff wedi cael hyfforddiant ynglŷn ag asesu ar gyfer dysgu ar lawr y dosbarth. Drwy'r camau hyn, mae gan y disgyblion well dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion pen uchaf cyfnod allweddol 2 yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn aeddfed er mwyn cywiro a datblygu eu gwaith ysgrifenedig.

Mae athrawon yn rhannu nod y wers yn glir gyda'r disgyblion. Maent yn gosod heriau pwrpasol ar gyfer yr ystod lawn o alluoedd ac oedrannau o fewn y dosbarthiadau, ac yn cyfeirio atynt yn briodol yn ystod y gwersi. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dethol y lefel briodol o her yn ystod eu gwersi. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dethol her benodol ac yn ymateb yn aeddfed pan fyddant yn teimlo eu bod wedi gwneud dewis anghywir, a bod angen mwy neu lai o her arnynt ar gyfer gweithgaredd penodol. Mae hon yn nodwedd gadarnhaol iawn, ac yn arddangos cyd-berthynas agos ac adeiladol iawn rhwng staff a disgyblion. Mae llawer o'r disgyblion yn arddangos lefel dda o ddycnwch i ddyfalbarhau â'u tasgau, ac ymwybyddiaeth o'u hanghenion eu hunain.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion ac mae llawer yn siarad yn synhwyrol ac aeddfed am ansawdd eu gwaith. Maent yn hyderus wrth adnabod cryfderau a diffygion yn eu gwaith. Gwrandawant ar ei gilydd yn dda gan addasu'r hyn maent am ei wneud yn dilyn adborth gan eraill. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio ap cyfrifiadurol i ddangos eu perfformiad i weddill y dosbarth ac yna ymateb i'w sylwadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio meini prawf llwyddiant er mwyn penderfynu pa mor llwyddiannus y maent wedi cwblhau eu gwaith ac i ystyried y camau nesaf ar gyfer gwella. Mae'r disgyblion yn dod yn fwy cyfarwydd â llunio targedau ar gyfer eu hunain gan ddewis targedau addas a pherthnasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio adborth yn effeithiol i wella safon eu gwaith. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, maent yn ymateb yn effeithiol i adborth trwy ychwanegu priflythyren neu atalnodi'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn ailddrafftio eu gwaith ysgrifenedig estynedig yn llwyddiannus gan dalu sylw manwl i adborth yr athro.

### A6. Sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r ardal allanol yn y cyfnod sylfaen

Mae athrawes a'r staff cynorthwyol yn y cyfnod sylfaen yn gweithio'n ddiwyd i sefydlu trefn ddyddiol a chynllunio profiadau gwerthfawr y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae'r athrawes yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn yr ardal helaeth sy'n rhan o dir yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ardal hon yn rhan naturiol o'r ddarpariaeth. Mae'r staff yn cynnig ystod o dasgau ffocws, heriau a gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r rhain yn datblygu amrywiaeth o fedrau disgyblion ar draws y meysydd yn fedrus. Mae lefel her y tasgau yn yr ardaloedd allanol yn cyd-fynd yn dda â lefel her tasgau eraill o fewn y dosbarth. Enghraifft benodol o hyn yw grŵp o ddisgyblion yn chwilio am ferfau a oedd wedi eu cuddio yn yr ardal allanol ger y dosbarth er mwyn eu defnyddio i lunio brawddegau yn ymwneud â stori Jac a'r goeden ffa. Gwneir defnydd effeithiol o'r siediau allanol er mwyn hybu annibyniaeth y disgyblion i allu nôl a chadw offer yn annibynnol ac yn drefnus.

Mae'r ysgol wedi gweddnewid yr ardal sydd union tu allan i'r dosbarth yn hynod bwrpasol. Bellach, mae'r ardal hon yn ddeniadol, yn ysgogol ac yn datblygu i fod estyniad naturiol o'r ystafell ddosbarth fel man i ddisgyblion ymarfer ystod o fedrau. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi adeiladu gwesty trychfilod a phlannwyd blodau a pherlysiau er mwyn hybu chwilfrydedd, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o fyd natur.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**